

Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Winchester
House, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf?.....	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Winchester House yn 67 Stryd Sant Iago, Arberth, SA67 7DB, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 21 Mai 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Winchester House yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd gan y practis y polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cynnal i safon uchel, fel yr oedd ffeiliau staff a gwybodaeth y practis.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelwyd dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth gref gan reolwr y practis a pherchennog y practis
- Roedd y practis yn annog y cleifion i roi adborth
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Yn ôl pob golwg, roedd y tîm staff yn hapus iawn yn eu rolau, yn gymwys wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau, ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ni chafodd unrhyw argymhellion eu gwneud yn ystod yr arolygiad hwn

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Winchester House yn darparu gwasanaethau i gleifion yn Arberth a'r ardal gyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hyleneidd, un therapydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd / nyrs ddeintyddol, ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Mae'r practis yn ceisio adborth gan gleifion drwy gynnal arolygon a gwahodd cleifion i ddarparu awgrymiadau yn y blwch a ddarperir yn y dderbynfa. Gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais i gleifion.

Nododd y cleifion hynny a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 521 o holiaduron eu cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd rhai o'r sylwadau gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

"Mae'r staff bob amser yn gwrtais ac, os ydynt yn rhedeg yn hwyr, yn eich hysbysu o'r sefyllfa."

"Mae'r staff o'r radd flaenaf, yn ofalgar ac yn hawdd iawn eu cymwynas. Mae staff y dderbynfa yn cael drefnus ac yn ymatebol iawn. Staff deintyddol rhagorol."

"Rwy'n gweld bod y tîm cyfan sydd bellach yn gweithio yn y practis hwn yn barod eu cymwynas a chyfeillgar iawn ac, er nad wyf yn rhy hoff o fynd at y deintydd, nid oes gennyf bryderon o'r fath wrth fynychu Winchester House."

"Rydym yn hapus iawn gyda'n practis deintyddol, yn enwedig pan fo'i angen mewn argyfwng."

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym fod y

practis eisoes yn wych ac nad oedd angen ei wella, ond roedd sylwadau cleifion eraill yn cynnwys:

"Efallai cyflwyno mwy o apwyntiadau gyda'r nos."

"Cadw at amser yr apwyntiad."

"Byddai agor ar foreau Sadwrn yn wych i blant ysgol fynychu."

Cadw'n iach

Yn yr ardal aros, gwelsom ddetholiad bach o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni am driniaethau a chyngor ataliol. Roedd detholiad mwy ar gael yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Roedd taflenni hefyd ar gael ym mhob ystafell driniaeth a dywedwyd wrthym, pan wnaethant ymweld â'r practis, y byddai cleifion yn cael gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hiechyd deintyddol a'u triniaeth.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw'u ceg a'u dannedd yn iach. Dywedodd 96% o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn bod yn gwrtais wrth siarad gyda chleifion oedd yn ymweld â'r practis ac wrth siarad gyda chleifion dros y ffôn.

Roedd pob un ond un claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Ar y llawr daear, roedd gan y practis dderbynfa ac ardal aros agored. Dywedodd staff wrthym, pe bai angen cynnal sgwrs breifat yn bersonol neu ar y ffôn gyda chleifion, y gallent ddefnyddio ystafell driniaeth rydd i ffwrdd o'r dderbynfa a'r ardal aros, swyddfa'r rheolwr practis, neu ardal lolfa breifat ar y llawr cyntaf.

Canfuom fod gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau y diogelir gwybodaeth bersonol a sensitif.

Roedd gan bob ystafell driniaeth ddrysau y gellid eu cau pan oedd claf yn derbyn triniaeth, gan gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cymryd rhan (cymaint ag yr oeddent am fod) mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Er bod y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn dweud bod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei gwneud yn glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod rhestrau prisiau ar gyfer costau triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

Gwelsom fod manylion y deintyddion ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gallent bob amser siarad â staff yn eu dewis iaith.

Gofal amserol

Dywedodd bron tri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau ar ffenestr flaen y practis ac yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, yn ogystal â chael eu darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pe bai oedi gyda'r deintydd.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd mwyafrif helaeth y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith ynghyd â pholisïau preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd dau ris yn arwain i'r brif fynedfa o'r stryd ac roedd y staff yn defnyddio ramp cludadwy er mwyn caniatáu i'r cleifion mewn cadeiriau olwyn gael mynediad i'r practis. Roedd y dderbynfa, y man aros ac un ystafell driniaeth ar y llawr daear a gallai'r rhai ag anawsterau symudedd gael mynediad at bob un ohonynt.

Roedd toiled ar gyfer cleifion wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Roedd hwn yn fach iawn a, phan oedd yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddiwr cadair olwyn, nid oedd modd cau'r drws yn llawn. Er mwyn sicrhau y gellid darparu mynediad a chynnal preifatrwydd, roedd y practis wedi rhoi gweithdrefn ar waith a oedd yn cynnwys cloi'r drws blaen, cau drws mewnol, a gofyn i gleifion a staff eraill aros yn y man aros.

Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwnaeth bron i draean o'r cleifion ddweud na ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau am y gwasanaeth a ddarparwyd yn y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG. Lle roedd yn berthnasol, roedd y polisi yn cyd-fynd â phroses gwyno'r GIG, sef “Gweithio i Wella”,¹ ac â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017² mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat. Yn y lle cyntaf, roedd y polisi wedi'i gynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Mewn ymateb i'n pryder nad yw pob claf yn darllen y ffolder, rhoddodd y staff y polisi yn ardal y dderbynfa.

¹ “Gweithio i Wella” yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/202/contents/made>

Roedd gan y practis broses ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a phryderon a dderbynnir ganddo. Gwnaethom nodi bod ei ffeil yn cynnwys cofnodion cynhwysfawr o gwynion, sut yr aethpwyd i'r afael â hwy a'r ymatebion terfynol. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am fonitro'r holl bryderon a'r cwynion a dderbynnir.

Roedd y practis yn cofnodi unrhyw bryderon llafar ac adborth yn nodiadau'r cleifion. Er mwyn caniatáu monitro'r rhain a nodi unrhyw themâu ailadroddol, cytunodd rheolwr y practis (gan ddilyn ein cyngor) roi proses ar waith lle mae'r staff yn cofnodi unrhyw bryderon ar lafar ac adborth yn eu dyddiaduron, a oedd yn cael eu hadolygu bob wythnos.

Cyn yr arolygiad, rhoddodd AGIC 20 o holiaduron i'r practis i'w cwblhau gan gleifion. Penderfynodd y practis, er mwyn casglu maint sylweddol o adborth gan gleifion, fynd ati i ddosbarthu 500 o holiaduron AGIC ychwanegol a chynnal ei ddadansoddiad ei hun o'r ymatebion.

Gwelsom fod blwch awgrymiadau gan y practis yn yr ardal aros. Dywedwyd wrthym fod yr holl awgrymiadau a dderbynnir yn cael eu hadolygu gan reolwr y practis. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried rhoi gweithdrefn ar waith ar gyfer rhoi adborth i gleifion ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'w hawgrymiadau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cynnal i safon uchel.

Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys digon o offer ac yn lân ac yn daclus.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-x yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant cleifion a oedd yn ymweld â'r practis a'r staff sy'n gweithio yn y practis. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn ei farn ef, naill ai'n lân iawn neu'n weddol lân.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda o'r tu allan. Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, gydag offer a chyfarpar wedi'u storio'n briodol.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi bod gwasanaethu wedi cael ei gynnal yn y deuddeg mis diwethaf i sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel.

Roedd gan y practis lyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, wedi'i arddangos yn swyddfa rheolwr y practis.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Roedd gan y practis bolisi 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH), dalenni data a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'berylus i'w cyflenwi', a chyfarwyddiadau ar gyfer y defnydd diogel o sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.³ Roedd gwaith glanhau cyn sterileiddio a'r sterileiddio ei hun yn cael eu gwneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Roedd gwiriadau cynnal a chadw offer sterileiddio'n cael eu cwblhau yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr, a gwelsom dystiolaeth fod y llyfrau lòg ar gyfer gwirio offer sterileiddio'n cael eu cynnal. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn yr ystafell ddadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

Roedd y practis yn ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau i ddelio ag argyfyngau cleifion, gan gynnwys polisi dadebru oedd yn cael ei arddangos ym mhob ystafell triniaeth ddeintyddol.

Roedd gan y staff gyffuriau ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.⁴ Storiwyd y rhain yn ddiogel. Ar adeg yr arolygiad, roedd y silindr ocsigen yn cael ei storio ar waelod y cwpwrdd ond tu ôl i uned storio, y byddai'n rhaid iddi gael ei symud o'r cwpwrdd yn gyntaf. Cyn gynted ag y dygwyd hyn at sylw rheolwr y practis, symudwyd y silindr er mwyn caniatáu mynediad rhwydd a phrydlon ato.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos, ac eithrio un aelod o'r staff, fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Yn fuan ar ôl yr arolygiad, cadarnhaodd y practis fod trefniadau wedi cael eu gwneud i'r aelod hwn o'r staff fynychu hyfforddiant. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf a benodwyd.

Gwnaethom nodi hefyd fod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Er bod y wybodaeth ychwanegol a'r canllawiau a gasglwyd gan reolwr y practis yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol, byddem yn cynghori y dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y polisiâu er mwyn hwyluso mynediad.

⁴ Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar un neu'r ddwy agwedd ar hyfforddiant, h.y. amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y manau a reolir wedi cael eu nodi. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Gwnaethom nodi'r dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod y peiriant pelydr-X OPT wedi cael ei ddatgomisiynu.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.⁶

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen gynhwysfawr o archwiliadau ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau, radiograffau a chadw cofnodion.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁶ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Nodwyd gennym fod y deintyddion yn cwrdd yn anffurfiol er mwyn trafod unrhyw faterion clinigol mewn perthynas â'r practis. Mae'r practis yn cymryd rhan ym Mhrosiectau Archwilio Clinigol ac Adolygu gan Gymheiriaid Deoniaeth Cymru (CAPRO),⁷ sy'n golygu gweithio gyda phractisau eraill a chymharu agweddau gwahanol ar eu harferion ag arferion da sefydledig.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis wedi cwblhau offeryn datblygu practis Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.⁸ Offeryn datblygu tîm practis deintyddol yw'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth i alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio a sut y gallant wella.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis bolisi diogelu data ar waith. Roedd y dull storio ffeiliau'n briodol i sicrhau diogelwch data personol. Gwnaed copiâu wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn rheolaidd ac roedd gwybodaeth am gleifion nad oedd ar ffurf electronig yn cael ei storio mewn cypyrddau dan glo yn y dderbynfa.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o safon uchel iawn, a oedd yn dangos bod gofal da iawn wedi'i ddarparu i gleifion. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

⁷ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro>

⁸ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith. Roedd yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Winchester House, ac mae hefyd yn gweithio yno'n llawn amser. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr practis effeithlon. Gwelsom berthynas dda iawn rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod gan bob polisi ddyddiad adolygu a'i fod wedi'i lofnodi gan staff i gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth. Gwnaethom nodi hefyd fod rheolwr y practis wedi ychwanegu gwybodaeth gefndirol a chanllawiau ategol at nifer o bolisiâu er mwyn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth y staff.

Gwnaethom nodi bod rhaglen eang o asesiadau risg, gan gynnwys diogelwch tân, cymorth cyntaf ac asesiad o'r practis ei hun, wedi cael ei chynnal.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom gydbberthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff contract gwaith a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis. Roedd gan y practis raglen gadarn o arfarniadau staff a oedd yn cael eu cynnal yn flynyddol ac roedd yn cwblhau ffurflenni a oedd yn cael eu cadw ar ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, gwnaethom nodi un aelod o staff clinigol nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardio-pwlmonaidd. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, a drefnodd ar unwaith i'r aelod hwn o staff fynd ar gwrs cyn gynted â phosibl.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff bob un i dri mis. Yn dilyn pob cyfarfod, mae cofnodion yn cael eu drafftio a'u ffeilio'n electronig. Maen nhw hefyd yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd i staff yn yr ystafell staff ar y llawr cyntaf fel y gallant gael eu hadolygu, eu diwygio a'u llofnodi gan y staff.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Gwnaeth y practis ddarparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf) <<http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>> a, lle y bo deintyddiaeth breifat yn cael ei darparu, [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/pdfs/wsi_20170202_mi.pdf). <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/pdfs/wsi_20170202_mi.pdf> Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>>, [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made) <<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol' <<https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon a oedd angen sylw ar unwaith	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Winchester House

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Winchester House

Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. Nid oes angen i'r practis gwblhau cynllun gwella.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Stephen Griffiths

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10 Gorffennaf 2018